

Aseiad o'r Effaith ar y Gymraeg

**Diwygio Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 20:
Cynllunio a'r Gymraeg**

Tachwedd 2015

Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

Teitl: <u>Diwygiado Nodyn Cyngor Technegol</u> <u>(TAN) 20: Cynllunio a'r Gymraeg</u>	Cyfeirnod yr Asesiad: <i>(i'w llenwi gan Uned y Gymraeg):</i>				
Enw'r unigolyn sy'n llenwi'r ffurflen:	Jonni Tomos				
Dyddiad:	Tachwedd 2015				
Arweinydd polisi:	Jonni Tomos				
Manylion cyswllt:	Jonni.tomos@cymru.gsi.gov.uk 029 2082 1543				
Math o Raglen/Prosiect <input type="checkbox"/> Polisi <input type="checkbox"/> Prosiect neu raglen <input type="checkbox"/> Deddfwriaeth <input type="checkbox"/> Ymchwil, gwerthusiad <input type="checkbox"/> Grant <input type="checkbox"/> Gwasanaethau <input type="checkbox"/> Newid busnes <input type="checkbox"/> Contractau, tendrau <input type="checkbox"/> Seilwaith <input type="checkbox"/> Adeiladu, Cyfalaf <input type="checkbox"/> TGCh <input checked="" type="checkbox"/> Arall (Nodwch isod)					
Diwygio dogfen ganllawiau ar gynllunio defnydd tir					
Costau: Beth a ragwelir fydd cost oes gyfan y rhaglen/prosiect? Os yw'n llai na £25,000, nid oes angen cynnal Asesiad llawn bob tro (gweler y canllawiau).					
Dan £25K	£25 - £49K	£50 - £249K	£250K - £1m	Dros £1m	
X	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
A oes unrhyw gyfran o'r costau uchod yn uniongyrchol gysylltiedig â'r Gymraeg? Ni ragwelir y bydd unrhyw gostau ychwanegol i awdurdodau cynllunio lleol nac i'r diwydiant datblygu o ganlyniad i'r gwaith hwn.					
Am ba hyd y disgwylir i'r rhaglen/prosiect barhau?					
Hyd at 1 flwyddyn	Hyd at 2 flynedd	Hyd at 5 mlynedd	Hyd at 10 mlynedd	Mwy na 10 mlynedd	Anhysbys
<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	X	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Dyddiadau nodedig allweddol ar gyfer y rhaglen/prosiect: Bydd y diwygiadau i TAN 20 yn cael eu cyhoeddi ar ffurf ddrafft rhwng 4 Ionawr 2016 a 30 Mawrth 2016 at ddibenion ymgynghori. Ar ôl i'r ymatebion i'r ymgynghoriad gael					

eu dadansoddi, ac ar ôl i'r newidiadau angenrheidiol gael eu gwneud i'r fersiwn ddrafft, rhagwelir y bydd y fersiwn derfynol yn cael ei chyhoeddi yn ystod hydref 2016.

CAM 1: CYNLLUNIO

Beth yw nodau ac amcanion y polisi?

Beth yw'r canlyniadau a ddymunir/ beth sydd ei angen er mwyn i'r rhaglen/prosiect fod yn 'llwyddiant'?

Mae Nodiadau Cyngor Technegol (TANs) yn rhoi cyngor manwl ar faterion cynllunio, a hynny'n bennaf er budd Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLLau). Mae Nodiadau Cyngor Technegol yn ategu'r polisiâu cynllunio cenedlaethol yn Polisi Cynllunio Cymru, ac yn rhoi cyngor i ACLLau ar faterion cynllunio penodol, a hynny yng nghyd-destun paratoi Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLlau) a phenderfynu ar geisiadau am ganiatâd cynllunio.

Mae TAN 20 yn cael ei ddiwygio er mwyn adlewyrchu'r darpariaethau yn Neddf Cynllunio (Cymru) 2015. Diben y broses adolygu yw helpu ACLLau i gyflawni'r gofynion statudol a amlinellir yn y Ddeddf honno. Bydd y TAN yn cael ei ystyried yn effeithiol os bydd yr holl ACLLau yn dangos, yn y tymor byr i'r tymor canolig, eu bod wedi rhoi sylw i'r Gymraeg wrth baratoi eu CDLlau. Byddwn yn mesur hynny drwy ystyried a fydd CDLlau yn cael eu mabwysiadu neu eu hadolygu'n llwyddiannus drwy'r broses ffurfiol o archwilio CDLlau yn annibynnol.

Dros gyfnod hirach (3-5 mlynedd), byddwn yn monitro penderfyniadau a wneir gan awdurdodau cynllunio lleol ar geisiadau am ganiatâd cynllunio, a byddwn hefyd, pan grybwyllir bod y Gymraeg yn ystyriaeth berthnasol, yn monitro apelau y penderfynir arnynt gan yr Arolygiaeth Gynllunio. Bydd y canllawiau'n cael eu hystyried yn llwyddiant os gwrthodir mwyafrif llethol yr apelau yn erbyn penderfyniadau lle crybwyllir bod effaith ar y Gymraeg yn ystyriaeth berthnasol ac yn rheswm dros wrthod y cais. Os caiff mwy o apelau nag arfer eu caniatáu (ar draws pob math o apêl), gallai hynny fod yn arwydd bod awdurdodau cynllunio lleol yn crybwyll y Gymraeg pan nad yw'n berthnasol i'r cais.

Pa opsiynau polisi sydd wedi cael eu hystyried?

a

Beth fydd yr effeithiau o *beidio* â gweithredu'r polisi?

O dan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015, mae'n ofynnol i ACLLau ymgorffori yn yr Arfarniad ehangach o Gynaliadwyedd y CDLI asesiad o effeithiau'r cynllun hwnnw ar ddefnydd o'r Gymraeg. Mae'r gofyniad hwnnw'n un statudol a drafftwyd y canllawiau er mwyn adlewyrchu hynny. Mae'r polisi'n seiliedig ar y ddeddfwriaeth, felly nid ystyriwyd unrhyw opsiynau eraill.

Bydd TAN 20 yn rhoi cyngor i ACLLau ar *sut* i fynd ati i ymgorffori'r asesiad iaith yn yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. O beidio â gweithredu'r polisi hwn, mae'n debyg na fydd cysondeb o ran y modd yr ymgwymerir â'r dasg honno. Un o nodau Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 yw sicrhau mwy o gysondeb ar draws ACLLau Cymru o ran y gwasanaethau a gynigir a'r prosesau a ddefnyddir.

<p>A yw'r rhaglen yn dangos bod cysylltiad clir rhyngddi a strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg – iaith fyw: iaith byw?</p>
<p>Ydy. Mae ymrwymiad yn y strategaeth i ystyried pob cam ymarferol i gryfhau'r Gymraeg o fewn y system gynllunio. Bydd TAN 20 ar ei newydd wedd yn sicrhau bod darpariaethau Deddf Cynllunio (Cymru) yn cael eu gweithredu, yn unol â'r amcan a nodir yn <i>iaith fyw; iaith byw, Cynllun Gweithredu 2015-16</i></p>
<p>Beth yw'r effeithiau (cadarnhaol a/neu andwyol) ar y Gymraeg a nodwyd gennych yn ystod y cam cynllunio cychwynnol</p>
<p>h.y. ar siaradwyr Cymraeg, cymunedau Cymraeg eu hiaith, addysg cyfrwng Cymraeg, dysgwyr Cymraeg, gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg?</p>
<p>Gall y system gynllunio fod o gymorth i greu'r amodau a fydd yn helpu'r Gymraeg i ffynnu, drwy hwyluso gwaith datblygu, gan gynnwys tai newydd, ardaloedd cyflogaeth newydd, gwell cyfleusterau cymunedol, ac ysgolion. Gall helpu hefyd i gynnal gwasanaethau a chyfleusterau sy'n cefnogi defnydd o'r Gymraeg. Mae TAN 20 yr un mor gymwys i ardaloedd lle siaredir y Gymraeg yn eang yn iaith gyntaf i'r gymuned ag i ardaloedd lle nad yw'n cael ei siarad mor eang – mae'n galluogi ac yn annog ACLlau i weithredu mewn modd sy'n gymesur ac yn briodol i nodweddion yr ardal leol.</p>
<p>Pwy yw'r rhanddeiliaid? A yw anghenion siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yn cael sylw? I ba raddau y mae grwpiau buddiant y Gymraeg yn debygol o ymateb yn gadarnhaol i'r cynigion?</p>
<p>Ar gyfer yr Awdurdodau Cynllunio Lleol yn bennaf y mae'r canllawiau, ond mae ynddynt hefyd wybodaeth a chynghor sy'n berthnasol i'r diwydiant datblygu ac i'r cyhoedd yn gyffredinol. Mae Llywodraeth Cymru am weld system gynllunio sy'n deg ac sy'n gweithredu mewn ffordd gyson, ac mae Deddf Cynllunio (Cymru) wedi cyflwyno nifer o fesurau sy'n rhoi gwell cyfleoedd i'r cyhoedd gael dweud eu dweud am gynigion cynllunio.</p> <p>Wrth fynd ati i ddatblygu Deddf Cynllunio (Cymru), aed ati i ymgysylltu'n eang â grwpiau sydd â buddiant yn y Gymraeg. Cyhoeddi canllawiau drafft yw cam nesaf y broses o weithredu'r darpariaethau statudol ac felly, at ei gilydd, dylai'r grwpiau buddiant groesawu'r ddogfen.</p>
<p>Os na chynhaliwyd asesiad, neu os gwelwyd na fyddai unrhyw effeithiau, rhowch gyfrif llawn o hynny fel y bo cofnod ar gael. (Mae'n bosibl y gallai Tribiwnlys y Gymraeg ddefnyddio'r wybodaeth hon yn y dyfodol).</p>
<p>Ddim yn berthnasol.</p>
<p>Pa gamau gweithredu/ gwaith pellach a nodwyd yn ystod y cam cynllunio cychwynnol? e.e. gofynion o ran data, yr angen am adolygiad gan gymheiriaid, ymgysylltu'n allanol â grwpiau Cymraeg eu hiaith, nodi rhanddeiliaid neu restr ymgynghori, yr angen i gysylltu ag Uned y Gymraeg am gyngor)?</p>

Bydd ymgynghoriad am y newidiadau arfaethedig i TAN 20 yn helpu i ddangos a fydd y modd y bwriedir gweithredu yn rhoi'r hyblygrwydd i ACLlau ymateb yn briodol i sefyllfaoedd lleol, a bydd hefyd, ar yr un pryd, a lle bo modd, yn hyrwyddo dulliau cyson o weithredu ledled Cymru. Bydd yr Asesiad Effaith yn cael ei ddiweddarau yng ngoleuni unrhyw newidiadau a wneir i TAN 20 o ganlyniad i'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

CAM 2: NODI AC ASESU EFFEITHIAU

Crynodeb o'r Asesiad Effaith

Rhowch grynodeb o'r asesiad manwl a gynhaliwyd o effaith, ynghyd â'r sgoriau a roddwyd.

Effeithiau cadarnhaol:

- Mae'r canllawiau'n fodd i egluro ac i sicrhau bod y Gymraeg yn fater y dylai pob awdurdod cynllunio lleol ei ystyried wrth baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol ar gyfer cyfnod o 10-15 mlynedd
- Mae'r canllawiau'n galluogi awdurdodau cynllunio lleol i ddatblygu dulliau sy'n amrywio rywfaint, drwy benderfynu'n lleol ar yr hyn a olygir wrth ardal o sensitifrwydd neu arwyddocâd ieithyddol. Ni fydd penderfyniadau o'r fath yn seiliedig bellach ar farn unffurf a goddrychol, e.e. dim ond mewn ardaloedd lle mae mwy na X% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg y mae'r Gymraeg yn ystyriaeth gynllunio.

Effeithiau andwyol:

Dim.

Cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg e.e. statws uwch, mwy o ddefnydd o wasanaethau Cymraeg, mwy o ddefnydd o'r Gymraeg o ddydd i ddydd ac yn y gwaith.

- Mae'r canllawiau'n atgoffa awdurdodau cynllunio lleol o'r ddyletswydd sydd arnynt i ymgysylltu â rhanddeiliaid a'r boblogaeth leol wrth baratoi ac adolygu Cynlluniau Datblygu Lleol. Maent yn eu hatgoffa hefyd am bwysigrwydd gwneud hynny yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Tystiolaeth/data a ddefnyddiwyd, gan gynnwys proffil demograffig, wrth ystyried yr effeithiau:


- Mae'r canllawiau'n annog awdurdodau cynllunio lleol i ddefnyddio amryw o ffynonellau gwybodaeth a dangosyddion ar ddefnydd o'r Gymraeg, yn hytrach na dibynnu ar ddata'r Cyfrifiad yn unig.

Ar sail yr asesiad effaith/yr asesiad risg, pa effaith gyffredinol y rhagwelir y bydd y polisi'n debygol o'i chael ar y Gymraeg?

Cadarnhaol: X
 Andwyol:
 Niwtral:
 Anhysbys:


Penderfyniad ar ôl yr Asesiad	1. Dim newid mawr	X
	2. Addasu'r polisi er mwyn gwella'r effeithiau	<input type="checkbox"/>
	3. Parhau â'r polisi, gan gyflwyno mesurau lliniaru	<input type="checkbox"/>
	4. Rhoi'r gorau i'r polisi a chael gwared arno	<input type="checkbox"/>
<p>Os ydych wedi ateb 2,3, neu 4 uchod – atebwch y cwestiwn hwn: Sut y byddwch yn mynd i'r afael â'r effeithiau hyn er mwyn gwella'r canlyniadau ar gyfer y Gymraeg? Manylion y mesurau lliniaru/pwyntiau gweithredu/dewisiadau amgen er mwyn lleihau'r effeithiau andwyol a sicrhau mwy o ganlyniadau cadarnhaol:</p> <p>Ddim yn berthnasol.</p>		
<p>Os ydych yn ymgysylltu neu'n ymgynghori, beth sydd gennych mewn golwg? Pa gwestiynau yr ydych yn dymuno eu gofyn i randdeiliaid am yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ac am faterion yn gysylltiedig â'r Gymraeg?</p> <p>Bydd ymgynghoriad cyhoeddus am y diwygiadau i TAN20 yn cael ei gynnal rhwng 4 Ionawr a 30 Mawrth 2016. Bydd yr ymgynghoriad hwnnw'n gofyn barn am y prif newidiadau i TAN 20 ac mae hefyd yn tynnu sylw at yr asesiad hwn o effaith. Bydd cyfle i ddiwygio'r asesiad hwn o effaith cyn i fersiwn derfynol TAN 20 gael ei chyhoeddi yn ystod haf/hydref 2016.</p>		
CAM 3: AR ÔL YMGYNGHORI A PHARATOI I GYHOEDDI, MONITRO A GWERTHUSO		
<p>Ar ôl ymgynghori , pa newidiadau yr ydych wedi'u gwneud er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw faterion a godwyd yn ymwneud â'r Gymraeg?</p> <p>Ddim yn berthnasol.</p>		
<p>Sut y byddwch yn monitro'r effeithiau wrth i'r polisi gael ei weithredu?</p> <p>Ddim yn berthnasol.</p>		
<p>Amlinellwch sut y byddwch yn parhau i nodi'r effeithiau wrth fonitro a gwerthuso yn y dyfodol?</p> <p>Ddim yn berthnasol.</p>		
<p>Unrhyw sylwadau eraill – canlyniadau gwerthusiadau, effeithiau sy'n dod i'r amlwg</p> <p>Ddim yn berthnasol.</p>		

4. Datganiad

Arweinydd polisi:
*Mae'r polisi hwn yn effeithio ar y Gymraeg. Pan welwyd bod effeithiau andwyol neu gyfleoedd a gollwyd, gwnaed y diwygiadau priodol a chymerwyd y camau priodol.
Enw:
Jonni Tomos
Adran:
Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio
Dyddiad(au):
19 Tachwedd 2016
Llofnod:

Dyddiad Adolygu Arfaethedig:
Haf 2016

CYMERADWYAETH AC ADOLYGIAD GAN Y PRIF BERCHENNOG CYFRIFOL

Rwyf yn fodlon bod yr Aseiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn adlewyrchiad cywir o'r rhaglen/prosiect yn ystod y cam hwn o'i datblygiad/ddatbygiad. Drwy lofnodi, gallaf gadarnhau bod Safonau'r Gymraeg wedi cael y sylw priodol. Byddaf yn ailasesu'r rhaglen/prosiect ar adegau allweddol drwy gydol oes y rhaglen/prosiect, gan gynnwys cynnal adolygiadau polisi.

 Llofnodwyd (Prif Berchennog Cyfrifol)	Dyddiad: 26 Tachwedd 2015
Llofnodwyd (Prif Berchennog Cyfrifol)	Dyddiad Adolygu
Llofnodwyd (Prif Berchennog Cyfrifol)	Dyddiad Adolygu
Llofnodwyd	Dyddiad Adolygu

Atodiad B

(Prif Berchennog Cyfrifol)	
----------------------------	--